# Pwyllgor rhanbarthol gogledd cymru

## Cofnodion

**Dyddiad:** Dydd Iau 27 Tachwedd 2003

**Amser:** 7:00pm hyd 9:00pm

**Lleoliad:** Canolfan Busnes , Cyffordd Llandudno

**Yn bresennol:**

**Aelodau:**

| | |
|---|---|
| Janet Ryder, Cadeirydd | Gogledd Cymru |
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Mark Isherwood | Gogledd Cymru |
| Alun Ffred Jones | Caernarfon |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| Ieuan Wyn Jones | Ynys Môn |
| Denise Jones | Conwy |
| Sandy Mewies | Delyn |
| Karen Sinclair | De Clwyd |
| Brynle Williams | Gogledd Cymru |

**Cyflwynwyr:**

| | |
|---|---|
| Carwyn Jones, Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (eitem 2) | Penybont-ar-Ogwr |
| Geraint John Davies | Ail Wynt |
| John Sanderson | Shotton Paper |
| Menna Jones | Antur Waunfawr |
| Huw Davies | Antur Waunfawr |

## Ysgrifenyddiaeth:

| | |
|---|---|
| Siwan Davies | Clerc Pwyllgor |
| Vaughan Watkin | Dirprwy Glerc Pwyllgor |
| Silvia Ricondo | Gweinyddwraig Pwyllgorau |

### Eitem 1: Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau, siaradwyr ac aelodau’r cyhoedd i’r cyfarfod cyntaf i gael ei gynnal gyda’r nôs. Aelodau’r cyhoedd oedd wedi gwneud cais am gyfarfod gyda’r nôs a byddai’n cael ei arfarnu.

1.2 Roedd ymddiheuriadau wedi dod i law oddi wrth John Marek, Alun Pugh, Carl Sargeant a Dafydd Elis-Thomas.

1.3 Diolchodd y Cadeirydd i ddisgyblion Ysgol y Creuddyn, Ysgol Dyffryn Conwy ac Ysgol John Bright am yr arddangosfeydd ardderchog ar ddatblygu cynaladwy oedd wedi eu trefnu ganddynt ar gyfer y cyfarfod.

### Eitem 2: Cofnodion ac adroddiad o’r Cyfarfod Blaenorol

2.1 Heriodd Seimon Glyn, yn cynrychioli Cymuned ac a oedd yn bresennol fel aelod o’r gynulleidfa, yr Aelodau hynny o’r Pwyllgor oedd yn absennol o’r cyfarfod blaenorol. Gofynnodd am i bwnc y cyfarfod blaenorol gael ei ystyried eto mewn cyfarfod yn y dyfodol. Eglurodd y Cadeirydd bod pob Aelod wedi rhoi rheswm dros fod yn absennol o’r cyfarfod cynt.

2.2 Cytunodd y Pwyllgor i dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Hydref fel rhai cywir. Byddai’r Cadeirydd yn ysgrifennu at Gadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, Cadeirydd Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac at y Gweinidogion perthnasol ar faterion a godwyd yn yr adroddiad.

2.3 Roedd y Cadeirydd wedi derbyn ymatebion i adroddiad cyntaf y Pwyllgor ar reoli gwastraff. Roedd

Cadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, wedi ymateb gan groesawu agwedd y Pwyllgor a Gweinidog dros yr Amgylchedd hefyd wedi ymateb i'r pwyntiau a wnaed yn yr adroddiad..

## Eitem 3: Adolygiad o'r Cynllun Datblygu Cynaladwy

3.1 Eglurodd y Cadeiydd bwrpas yr eitem hon, sef derbyn barn y cyhoedd ar yr adolygiad o Gynllun Datblygu Cynaladwy y Cynulliad. Estynnodd groeso i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad; cyflwynodd ef y cynllun ac ymatebodd i gwestiynnau gan y gynulleidfa..

3.2 Rhoddwyd cyflwyniadau gan Ail Wynt, Antur Waunfawr a Chwmni Papur Shotton plc ar y modd y mae eu cwmnïau yn cynnig enghreifftiau ymarferol ar lefel leol o dair hanfod datblygu cynaladwy – sef agweddau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Dilynwyd y cyflwyniadau gan gwestiynnau a sylwadau gan y cyhoedd.

3.3 Gellir gweld crynodeb o'r pwyntiau a godwyd yn yr adroddiad sydd wedi ei atodi NWR(2)-03(r3), ac a gaiff eu cyflwyno i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

## Dyddiad y cyfarfod nesaf

4.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor ar ddydd Gwener, 30 Ionawr ym Mhafiliwn Rhyngwladol Brenhinol Llangollen.

**Ysgrifenyddiaeth Pwyllgorau**

**Rhagfyr 2003**